Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Pecyn Partner Masnachol

## 2026/27

# Pam dod yn bartner i Cartrefi Cymunedol Cymru?

Rydym yn borth i Gymdeithasau Tai yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli ac yn cefnogi 30 Cymdeithas Tai ar draws Cymru,  gan rannu'r uchelgais o ddarparu cartrefi ar gyfer pob dyfodol.

Rydym yn arbenigwyr yn sector tai Cymru, cefnogwn ein haelodau a'n partneriaid o amgylch polisi, lobio, ymgyrchoedd ac eiriolaeth. Rydym yn arbenigwyr dibynadwy ym mhob agwedd o dai Cymru.

Mae ein haelodau yn darparu dros 17,000 o gartrefi.[1] Maent yn cynhyrchu £1.45bn o Werth Ychwanegol Gros, yn cefnogi 37,000 o swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol cyfwerth ag amser llawn ac yn buddsoddi £28m yn uniongyrchol i adfywio cymunedol a chynnal tenantiaethau.[2]

Mae ein haelodau mewn cysylltiad agos gyda'n cynnig dros y flwyddyn –yn cynnwys cynadleddau, sesiynau ar-lein a cyfarfodydd cymunedau aelodau.

3k

Mae gennym fynediad i uwch wneuthurwyr penderfyniadau, tebyg i brif weithredwyr, aelodau bwrdd, cyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth o fewn y diwydiant gyda dros 3,000 o uwch arweinwyr yn gweithio gyda ni bob blwyddyn.

Mae ein haelodau yn sefydliadau annibynnol, dim-er-elw sy'n cyflwyno gwasanaethau hanfodol ac yn darparu tai fforddiadwy ar draws Cymru – mae cefnogi'r sector yn cefnogi Cymru.

Nid dim ond partneriaeth gyda CCC yw hyn, mae'n adeiladu partneriaeth gyda'r sector tai yng Nghymru.

1 Cyfrifon Cynhwysfawr 2023

2 Adroddiad CHC/Savills: Effaith Economaiddgymdeithasol Cymdeithasau Tai Cymru (Tachwedd 2025)

# Geirda:

# Yr hyn a ddywedodd ein partneriaid



*"Mae'r bartneriaeth a gawsom gyda CHC wedi bod yn wych i Quantum. Mae wedi ein galluogi i barhau ein partneriaeth gyda phob cymdeithas tai yng Nghymru, cadw ein proffil gyda nhw a chysylltu, cyfathrebu a chynnal ein cyfeillgarwch gyda'r holl sector."*

**Stuart Price, Partner ac Actiwari, Quantum Advisory**

*"Rydym yn gweithio ar y cyd – rydym mewn cysylltiad cyson am yr hyn y gallwn ei wneud i gefnogi'r sector. Mae'n wych i ni ac fe fyddwn yn bendant yn ei argymell i unrhyw gyflenwr neu fusnes sy'n ystyried ymuno. Mae'n bartneriaeth wirioneddol dda."*

**Jackie Leonard, Pennaeth Gwasanaethau Aelodau (Cymru), CHIC Ltd**





*"Mae'r berthynas gyda CHC yn wirioneddol bwysig i ni. Rydyn ni gyd yma i wneud yr un peth i'r sector, sef rhoi'r gefnogaeth fwyaf bosibl, creu mwy o effeithiolrwydd a helpu sefydliadau i gydweithio'n well, a dyna lle rwy'n meddwl fod Barcud Shared Services a CHC yn gweithio'n dda iawn gyda'n gilydd. Rydyn ni wedi cael gwell mynediad i'r gwahanol grwpiau o bobl na fyddem ni o reidrwydd wedi dod i gyswllt â nhw."*

**Nigel Ireland, Prif Swyddog Gweithredol, Barcud Shared Services**

*"Mae Centrus wedi gweithio gyda CHC am nifer o flynyddoedd. Mae'r berthynas yn ein galluogi i gael dialog ar draws y sector, felly pan mae materion ar draws y sector yn codi, mae'n ganolbwynt ar gyfer trafodaeth. Mae'n ein galluogi i gael safbwynt cytbwys yr holl sector mewn un lle a chyfathrebu yn effeithiol gydag aelodau am bethau Cymru-gyfan. Nid yn unig ydych chi'n cefnogi llais y sector, sydd yn anhygoel o bwysig ar hyn o bryd yn fy marn i, ond rydych hefyd yn cefnogi fforwm sy'n galluogi'r sector i siarad gydag un llais. Rydyn ni'n credu fod partneriaeth fasnachol gyda CHC yn gwestiwn gwerth am arian syml iawn."*

**John Tattersall, Rheolwr Gyfarwyddwr, Centrus Advisors**



# Beth mae'n cynnwys?

Bydd y pecyn cyflawn yn cadw eich sefydliad wedi ymwreiddio yn sector tai Cymru. Bydd yn codi ymwybyddiaeth o'ch brand, arddangos eich cynnyrch a gwasanaethau a dangos eich cefnogaeth i'r sector.

- Gofod stondin arddangos mewn lleoliad gwych mewn tair cynhadledd wyneb yn wyneb drwy gydol y flwyddyn (gwerth £4,500)
- Dau le i gynrychiolwyr mewn tair cynhadledd y flwyddyn ar gyfer yr holl ddigwyddiad, yn cynnwys cinio'r gynhadledd (gwerth £2,760)
- Tocynnau pris aelodau ar gyfer unrhyw leoedd ychwanegol mewn cynadleddau a archebir (gostyngiad o 30%)
- Briffiadau Cyflwr y Genedl blynyddol pwrpasol, yn rhoi'r diweddaraf i chi ar dai Cymru yn uniongyrchol i'ch sefydliad gan aelod uwch o dîm CCC gyda C&A (gwerth £2,000)
- Sesiwn wybodaeth flynyddol gydag aelod o dîm polisi ac allanol CHC ar bwnc o'ch dewis. (gwerth £1,500)
- Rhestru fel Aelod Partner Masnachol ar wefan CCC a defnydd ecsliwsif o logo "Partner Masnachol CCC" (gwerth £1,000)
- Cynnwys eich brandio ym mhob gwe-becyn, arwyddion a deciau sleidiau cynadleddau (gwerth £500)
- Yr opsiwn i gefnogi cinio cyn y gynhadledd, cinio canol-dydd yn y gynhadledd, briffiad brecwast neu dderbyniad diodydd i gynnwys slot 15 munud ar gyfer siaradwr o'r sefydliad (Partner Masnachol i dalu'r costau llawn i'r safle ar gyfer bwyd a diodydd, cyfyngedig i un y flwyddyn) (gwerth 2,000)
- O leiaf ddau gyfarfod arbennig 'Manteisio i'r eithaf ar eich aelodaeth' y flwyddyn
- Opsiwn i arddangos eich arbenigedd drwy ein 'sesiynau sbotolau' rhithiol

**Mae'r pecyn cyfan yn werth £14,260 heb gynnwys TAW**

# Prisiau

Rydym eisiau hybu ymgysylltu a chydweithio parhaus rhwng Partner Masnachol, Cymdeithasau Tai a CC. Ein prisiau ar gyfer y pecyn hwn yn adlewyrchu'r uchelgais hwnnw:

- **Cytundeb tair blynedd**

£8,520 y flwyddyn heb gynnwys TAW
Ebrill 2026 i Mawrth 2029
(£25,560 cyfanswm heb gynnwys TAW)

- **Cytundeb un blynydd**

£9,585 heb gynnwys TAW
Ebrill 2026 i Mawrth 2027

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni!

Louise Price-David

**Pennaeth Gwasanaethau Aelodau a Phartneriaethau**

louise-price-david@chcymru.org.uk

